# Cofnodion cryno - Y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus

Lleoliad:

**Ystafell Bwyllgora 3 - y Senedd**

Dyddiad: Dydd Mawrth, 11 Tachwedd 2014

Amser: 09.03 - 10.50

Gellir gwylio'r cyfarfod ar Senedd TV yn:

http://senedd.tv/cy/2464

## Yn bresennol

| **Categori** | **Enwau** |
|---|---|
| Aelodau'r Cynulliad: | Darren Millar AC (Cadeirydd)<br>William Graham AC<br>Mike Hedges AC<br>Alun Ffred Jones AC<br>Julie Morgan AC<br>Jenny Rathbone AC<br>Aled Roberts AC<br>Sandy Mewies AC |
| Tystion: | Simon Dean, Llywodraeth Cymru<br>Dr Andrew Goodall, Llywodraeth Cymru<br>Martin Sollis, Llywodraeth Cymru |
| Staff y Pwyllgor: | Huw Vaughan Thomas (Cynghorwr Arbenigol)<br>Meriel Singleton (Ail Glerc)<br>Claire Griffiths (Dirprwy Glerc)<br>Joanest Varney-Jackson (Cynghorydd Cyfreithiol) |

## 1 Glastir

1.1 Trafododd yr Aelodau ymateb Llywodraeth Cymru i adroddiad Archwilydd Cyffredinol Cymru, gan gytuno i gynnal sesiwn dystiolaeth gyda Llywodraeth Cymru.

1.2 Yn dilyn y sesiwn honno, bydd yr Aelodau'n trafod a ydynt am gynnal unrhyw waith arall yng nghyswllt Glastir.

## 2 Cyllid Iechyd 2013-14: Gwybodaeth gan Archwilydd Cyffredinol Cymru

2.1 Rhoddodd Archwilydd Cyffredinol Cymru drosolwg byr o brif ganfyddiadau ei adroddiad i'r Aelodau.

**TRAWSGRIFIAD**

Gweld trawsgrifiad o'r cyfarfod.

## 3 Cyflwyniadau, ymddiheuriadau a dirprwyon

3.1 Croesawodd y Cadeirydd yr Aelodau i'r cyfarfod. Ni chafwyd ymddiheuriadau.

## 4 Papurau i'w nodi

4.1 Nodwyd y papurau.

**4.1 Gofal heb ei drefnu: Llythyr gan y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol (27 Hydref 2014)**

**4.2 Craffu ar Gyfrifon y Comisiynwyr ar gyfer 2013-14: Gwybodaeth ychwanegol gan Gomisiynydd Plant Cymru**

**4.3 Craffu ar Gyfrifon y Comisiynwyr ar gyfer 2013-14: Llythyr gan Mike Shooter (3 Tachwedd 2014)**

**4.4 Craffu ar Adroddiad Blynyddol Cyngor Celfyddydau Cymru ar gyfer 2013-14: Gwybodaeth ychwanegol**

**4.5 Trefniadau Llywodraethu Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr: Llythyr gan Dr Andrew Goodall (4 Tachwedd 2014)**

**4.6 Trefniadau Llywodraethu Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr: Llythyr gan y Cadeirydd at Dr Andrew Goodall (6 Tachwedd 2014)**

## 5 Cyllid Iechyd 2013-14

5.1Bu'r Pwyllgor yn craffu ar Dr Andrew Goodall, Cyfarwyddwr Cyffredinol, Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol a Phrif Weithredwr GIG Cymru; Simon Dean, Dirprwy Brif Weithredwr GIG Cymru; a Martin Sollis, Llywodraeth Cymru, ynghylch Cyllid Iechyd 2013-14.

5.2 Cytunodd Dr Goodall i ddarparu nodyn ar y canlynol:

- Casgliad Canolfan Metaddadansoddi Cochrane (2012) bod y driniaeth pan fo pwysedd gwaed yn ymylu ar fod yn uchel yn fwy tebygol o niweidio cleifion na'u helpu, ac eithrio yn achos diabetes, a bod hynny'n un o'r contractau fframwaith ansawdd a deilliannau ar gyfer meddygon teulu
- Sut y rhoddir ystyriaeth i ardaloedd gwledig wrth ddyrannu unrhyw adnoddau yn y dyfodol
- Rheoli meddyginiaethau
- Sut y mae Llywodraeth Cymru yn dwyn byrddau iechyd i gyfrif yn erbyn yr amcan gofal iechyd darbodus

- Gweithio gyda chyfarwyddwyr gweithluoedd yng Nghymru, amlinellu eu dull gweithredu o ran polisïau disgyblu a sut y gellir cyflymu'r broses

## 6 Cynnig o dan Reol Sefydlog 17.42 i benderfynu gwahardd y cyhoedd o’r cyfarfod ar gyfer y busnes canlynol:

6.1 Derbyniwyd y cynnig.

## 7 Cyllid Iechyd 2013-14: Trafod y dystiolaeth a ddaeth i law

7.1 Bu'r Pwyllgor yn trafod y dystiolaeth a ddaeth i law a chytunwyd y byddai'r Cadeirydd yn ysgrifennu at Dr Goodall i ofyn am eglurhad ynghylch nifer o faterion a godwyd.

7.2 Nododd y Pwyllgor fod disgwyl i adroddiad Archwilydd Cyffredinol Cymru ar amseroedd aros gael ei gyhoeddi yn fuan a chytunodd i'w drafod cyn cyflwyno adroddiad.